UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

### Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r weledigaeth yn cael mynegiant clir yn yr adran hon.

Yr unig sylwadau y byddem am eu gwneud yw

(i) bod y trydydd pwynt bwled yn cyfeirio at bethau sydd eisiau yn ofynnol, ac nad ydynt felly'n ymestynnol; yn ogystal, mae'r ymadrodd '*cael y cyfle i sefyll* arholiad wedi'i achredu'n allanol mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4' yn ymddangos yn wan iawn

(ii) yn y pedwerydd pwynt bwled, hoffem weld ymrwymiad nid yn unig at 'gyfle cyfartal ieithyddol o ran addysg' ond yn ychwanegol at hynny, cyfle cyfartal ieithyddol o ran unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen ar y grŵp hwn o ddysgwyr

### Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

**<u>Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</u>**

Mae'r amlinelliad a'r dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol yn glir. Mae'r targedau a'r camau gweithredu'n edrych yn gadarn ac yn gadarnhaol iawn.

Hoffem gael rhagor o wybodaeth ynghylch ffynhonnell y data sy'n awgrymu "gostyngiad bach yn y ganran o'r plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer blynyddoedd academaidd 2014-17"; mewn rhan arall o'r Cynllun, sonnir bod tebygolrwydd y bydd presenoldeb yr ysgol uwchradd newydd yn denu "canran gynyddol o ddysgwyr i'r sector cyfrwng Cymraeg".

Pryderwn am y bygythiad i ddarpariaeth feithrin, sydd dan adolygiad ar hyn o bryd, dros y blynyddoedd i ddod. Gallai unrhyw doriadau effeithio'n negyddol ar y llif o blant i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod.

Gwyddom fod yr Awdurdod yn adolygu ei bolisïau o ran cludiant am ddim. Croesawn y datganiad y bydd yr Awdurdod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a hyderwn fod hynny'n golygu y bydd yn parhau i "hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg" yn unol â gofynion y Mesur hwnnw. Rhaid sicrhau bod hawl i gludiant am ddim i ysgol cyfrwng Cymraeg sydd y tu hwnt i'r pellteroedd teithio statudol (neu lai, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod), hyd yn oed os nad dyna'r 'ysgol addas agosaf' yn ôl diffiniad y Mesur.

Rydym yn falch gweld bod yr Awdurdod yn derbyn bod pwysau mawr ar y ddwy ysgol gynradd yn ne'r Awdurdod, a chroesawn y ffaith fod yr Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â'r sefyllfa. Cadwn lygad ar ddatblygiadau yn dilyn yr ymgynghoriad. Yn ogystal, crybwyllir y posibilrwydd o ddatblygu unedau cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd penodol o'r Awdurdod ble mae'r galw ar ei fwyaf; mi fyddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hun, yn benodol pa ardaloedd sydd dan sylw, a beth yw'r ffigyrau o ran galw sy'n sail iddynt?

Mae'r gwaith a amlinellir o ran cynlluniau trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid yn ymddangos yn gadarnhaol ac yn gyffrous.

**<u>Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd</u>**

Unwaith eto, rydym yn fodlon â'r wybodaeth/dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol a ddarperir, a'r targedau mesuradwy a chamau gweithredu penodol a fydd yn arwain at wella a chryfhau'r ddarpariaeth.

Yr unig gwestiwn sydd gennym yw pwy fydd yn 'archwilio rhesymau' rhieni sydd yn dewis newid cyfrwng iaith addysg eu plant o'r Gymraeg i'r Saesneg - a sut y bwriedir mynd ati i wneud hyn. Teimla UCAC yn gryf y dylai bod camau'n cael eu cymryd sy'n golygu bod disgybl sydd wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg hyd at Gyfnod Allweddol 3 yn parhau i ddilyn Rhaglen Ddysgu Cymraeg Iaith Gyntaf ar gyfer TGAU Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 (a CA5 hefyd, os yn berthnasol), hyd yn oed os yw'n dewis trosglwyddo i ysgol cyfrwng Saesneg a dilyn gweddill y pynciau trwy gyfrwng y Saesneg.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

Mae'r trefniadau cyfredol a'r cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn ymddangos yn drefnus ac yn canolbwyntio mewn modd priodol ar rôl y Gymraeg yn systemau addysg yr awdurdod a'r rhanbarth ehangach.

Rydym yn ymwybodol bod yr Awdurdod wedi bod yn ymgynghori ar faterion cludiant. Rhybuddiwn y byddai torri cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 yn effeithio'n andwyol ar y niferoedd sy'n dewis derbyn eu haddysg ôl-16 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn wir, mi allai effeithio ar y niferoedd yn y sector cyfrwng Cymraeg drwyddi draw petai'n ymddangos i rieni nad oes dilyniant hwylus i addysg ôl-16. Mi allai hynny danseilio'r sector gyfan, gan ei gwneud hi'n llawer anoddach i'r Awdurdod gyrraedd ei dargedau yn y Cynllun hwn.

**Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

Unwaith eto, cymeradwywn gynnwys yr adran hon o'r Cynllun yn gyffredinol.

Nodwn fod angen sicrhau bod yr Arweinydd System â chyfrifoldeb strategol am y Gymraeg yn gyfarwydd i'r holl ysgolion perthnasol, a bod meithrin perthynas gyda'r staff perthnasol yn hollbwysig. Os nad yw'r Arweinydd System, neu'r Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg sy'n gyfrifol am Gymraeg Iaith Gyntaf wedi'u penodi eto, mae angen i hynny ddigwydd fel mater o frys, ac i'r cysylltiadau gyda'r ysgolion gael eu gwneud ar fyrder.

Pwyswn ar yr Awdurdod i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i staff y sector cyfrwng Cymraeg, ac eraill sy'n dymuno hynny.

**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith:** Nid yw'n glir pam fod y targedau a osodwyd ar gyfer cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2014-2016 yn is na'r ganran ar gyfer 2013. Naill ai mae hynny'n dangos diffyg uchelgais, neu mae ffactorau penodol dros hynny nad ydynt wedi'u hamlinellu'n ddigon clir yn y Cynllun drafft.

Nid oes ffigyrau penodol yn cael eu nodi ar gyfer y niferoedd nad ydynt yn sefyll cymhwyster wedi'i achredu'n allanol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Serch hynny, mae modd cyfrifo bod y ffigwr ar gyfer y blynyddoedd diweddaraf oddeutu 18-19.5%. Nid yw'r ymadrodd 'parhau i sicrhau bod pob disgybl mewn ysgol uwchradd Saesneg *yn cael y cyfle* i sefyll arholiad allanol mewn Cymraeg Ail Iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4' yn codi'r hyder y bydd y ffigwr hwnnw'n gostwng. Bydd angen bod yn fwy cadarn na 'rhoi cyfle' yn unig.

Credwn fod tabl neu ffigyrau wedi mynd ar goll ar ddiwedd colofn C (Targedau) yr adran hon – sef targedau ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n dilyn y cwrs llawn, a lleihau'r niferoedd nad ydynt yn sefyll cymhwyster o gwbl.

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg**

Dim sylw.

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus**

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer hyfforddiant i gynyddu sgiliau ieithyddol a methodolegol addysgwyr (athrawon a chynorthwywyr dysgu) ymhob sector – gan gynnwys drwy Gymunedau Dysgu Proffesiynol. Galwn ar yr Awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer addysgwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg, a thu hwnt.



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com